Trefniadau ail agor yr ysgol i bawb - gan ddechrau ar Fedi 3ydd, 2020

- Yn dilyn canllawiau Llywodraeth Cymru a'r Awdurdod Addysg Lleol, mae'r trefniadau isod wedi eu cynllunio i sicrhau diogelwch plant, staff a rhieni. Maent wedi eu selio ar asesiadau risg niferus a thrylwyr.
- Mae gwybodaeth eisioes wedi ei rannu gyda chi (gohebiaeth gan Gwynedd), a dylech cyfeirio at oar gyfer atebion llawer o gwestiynau cyffredin.

Beth fydd fy mhlentyn ei angen?

- Dillad glan yn ddyddiol. – gwisg ysgol os yn bosibl o.g.y.dda. Bydd y plant yn yr awyr agored ym MHOB TYWYDD felly dim dillad drud.
- Esgidiau addas l'r tywydd, ond DIM SANDALAU o unrhyw fath o gwbwl.
- Côt law neu eli haul, a chap haul.
- Gofynnir yn garedig i chi roi y plant ieuengaf mewn joggers- gan na fydd hi'n bosibl i ni helpu agor bytymau. Nid yw hi'n bosibl i ni gau criau esgidiau ychwaith, felly bydd felcro yn ddefnyddiol i bob oed!
- Potel o ddŵr (NID pop neu jiws) a ffrwyth ar gyfer amser egwyl. Rhowch y ffrwyth mewn bag/ cynhwysydd wedi ei selio a bydd unrhyw groen yn dod adref yr un ffordd..
- Os yn dod efo bocs bwyd, mae angen sicrhau bod popeth yn hawdd i'ch plentyn ei agor ar ben ei hun e.e torrwch y ffrwyth yn barod, rhowch glip neu beg ar baced.

Beth fydd fy mhlentyn angen yn ei fag ysgol?

Dillad sbar rhag ofn eu bod yn gwlychu neu faeddu tra allan yn chwarae/gweithio.

Par o 'drainers' os nad yn eu gwisgo yn barod.

Cas pensiliau os dymunwch, ond bydd angen i hwn aros yn yr ysgol wedyn. Mae ganddom ddigon o ddeunyddiau I bawb sydd heb.

Trefniadau cyrraedd a gadael

Bydd y maes parcio **AR GAU** oni bai am y tacsi gan Gwynedd a pherchnogion bathodyn glas. Bydd staff yr ysgol ar gael i helpu ddweud pwy sy'n mynd i ble! Fel ddywedwyd yn flaenorol, ni chawn ganiatau rhieni ar dir yr ysgol a gofynnir I chi barchu rheolau pellhau 2m wrth fynd a dod ar y palmant hefyd. Dyma gyfle gwych i'ch atgoffa bod cerdded i'r ysgol yn llesol i'r corff a'r enaid a na ddylid parcio ar linellau dwbl melyn. Cewch wybodaeth am ddiogelwch y ffyrdd drwy ddilyn y linc www.dffgwyneddmon.net

Tra'n deall ei bod yn anodd i blant ifanc, gofynnir y chi sicrhau bod eich plentyn yn deall y gofyn am ymbellhau 2m oddi wrth oedolion.

Sut mae'r ysgol yn cadw fy mhlentyn yn ddiogel? Dyma enghreifftiau :-

Pob 'hwb' o ddosbarth yn cadw efo'i gilydd heb gymysgu gyda dosbarthiadau eraill	Drysau a ffenestri ar agor ar gyfer llif awyr iach.
Dim rhieni / ymwelwyr i gael mynediad i'r ysgol heb drefniant ymlaenllaw	Pob plentyn yn derbyn pecyn offer ysgol eu hunain
Golchi dwylo wrth gyrraedd/ymadael ac yn rheolaidd yn ystod eu hamser yn yr ysgol.	Toiledau dynodedig i ddosbarth.
Dim crwydro rhwng ystafelloedd.	Amseroedd cyrraedd/ gadael gwahanol.
Di-heintio unrhyw offer buarth.	Glanhau cyson ac ychwanegol yn ystod y dydd.
Bwyd y rhai bach wedi ei dorri ymlaenllaw.	Dosbarthiadau wedi eu gosod yn ystyrlon

Beth os fydd fy mhlentyn yn sâl neu'n brifo tra mae yn yr ysgol?

Os bydd eich plentyn cael ei daro'n wael yn yr ysgol ond ddim yn dangos symptomau COVID-19 byddem yn dilyn y drefn arferol drwy gysylltu gyda chi i'w casglu. Pan fyddwch yn dod i gasglu'ch plentyn, bydd angen i chi ganu gloch y brif fynedfa ac aros ar y smotyn 2m nes bydd rhywun yn rhyddhau eich plentyn.

Os fydd eich plentyn angen cymorth cyntaf, bydd y staff yn gwisgo offer PPE cyn agosau yn gymdeithasol a rhoi sylw i'ch plentyn.

Beth os fydd fy mhlentyn yn sâl ac yn dangos symptomau o COVID-19 yn yr ysgol?

Os yw plentyn yn dangos symptomau o COVID-19 byddem yn dilyn y gweithdrefnau canlynol:- -

- Bydd eich plentyn yn aros mewn ystafell penodedig ar gyfer achosion COVID-19 gyda aelod o staff.
- Byddem yn cysylltu gyda chi i gasglu'ch plentyn ac yn eich cyfarwyddo yn unol â chanllawiau'r Llywodraeth ar y pryd..

Beth os fydd fy mhlentyn gyda problemau toiledu ac yn cael damwain?

Os yw eich plentyn yn cael damwain, byddem yn gofyn i chi ddod i godi eich plentyn er mwyn ei newid adref.

Beth fydd yn digwydd i wasanaeth ysgol gyfan/addoli ar y cyd?

Ni fydd dosbarthiadau yn cymysgu â dosbarthiadau eraill ar unrhyw achlysur. Bydd unrhyw addoliad ar y cyd yn cael ei wneud yn y dosbarth.

Trefn taliadau ar lein ar gyfer brecwast a chinio

Mae'r Gateway bellach ar agor a gofynnwyd i ni rannu'r canlynol gyda chi : www.facebook.com/watch/?v=753232622198443&extid=NXvtH9PLPK0Dx5KO

Mae'n bleser cyhoeddi bydd Mrs Beaven efo ni llawn amser tra bod Mrs Foxhall ar gyfnod mamolaeth. Diolch iddi am gytuno gan roi cysondeb i bawb.

Mi ddawn i drefn gyda'r holl newidiadau – amynedd pia hi wrth i ni barhau i gadw pawb yn ddiogel tra bod canllawiau yn newid. Mae pob newid yn chenj, a 'rydym bellach wedi arfer addasu ar fyr-rybudd i newidiadau yn do?

Cofiwch gysylltu drwy e-bost, ffon neu negesydd os oes cwestiwn nad sy'n cael ei ateb o fewn yr holl waith papur! Haws ganddom eich bod yn gofyn yn hytrach na hel meddyliau a phoeni.

Diolch a byddwch ddiogel.

Ysgol y Gorlan